**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

2 Gorffennaf 2025

Annwyl Rebecca,

**Deiseb P-06-1488 Sefydlu 'Cymdeithas Gofal' i Fynd i'r Afael â'r Argyfwng COVID Hir yng Nghymru**

Rwy'n ysgrifennu ar ôl i ni gael llythyr gan y Pwyllgor Deisebau ynghylch Deiseb P-06-1488 Sefydlu 'Cymdeithas Gofal' i fynd i'r afael â'r argyfwng COVID Hir yng Nghymru. Mae'r ddeiseb yn annog gweithredu o ran Covid hir ac yn benodol, mewn perthynas â'n cylch gwaith ni, mae'n galw am gefnogaeth i'r rhai sydd â Chovid hir. Yn benodol, mae'n galw am:

- "Addasiadau yn y gweithle fel oriau hyblyg, gweithio o bell, ac amddiffyniadau rhag gwahaniaethu"; a
- Cynllun peilot Incwm Sylfaenol Cyffredinol, i ymchwilio i sut y gallai cymorth ariannol rymuso pobl i gyfrannu at y gymdeithas, waeth beth fo'u statws iechyd".

A allwch nodi beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi pobl sydd â Chovid Hir i gyfrannu at yr economi yng Nghymru a chael mynediad at waith?

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Carolyn Thomas AC, Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau.

Yn gywir,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

CC: Carolyn Thomas AS, Cadeirydd, Y Pwyllgor Deisebau

Senedd Cymru
Welsh Parliament